WR WOMEN IN RAIL

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES


NetworkRail

# NEVER MIND THE GAP

## CWESTIYNAU CYFFREDIN

























## Beth yw rhaglen Never Mind the Gap?

Network Rail a Thrafnidiaeth Cymru (TrC) sy'n cynnig y rhaglen Camu i'r Bwlch, sef menter a ddyluniwyd i gynnig hyfforddiant a lleoliadau gwaith yn ddi-dâl i fenywod yn ne Cymru a fyddai'n hoffi rhoi eu gyrfaoedd ar ben ffordd. Cynhelir y lleoliad gwaith dros wythnos, gan gynnwys hyfforddiant ar dopigau fel cyflwyniad i'r rheilffordd, magu hyder, sgiliau cyfweliad/ysgrifennu CV a llawer mwy!

## Pryd caiff y rhaglen ei gynnal?

Lleoliad gwaith un-wythnos yw hwn, a gynhelir o ddydd Llun 10 Tachwedd 2025 i ddydd Gwener 14 Tachwedd 2025.

## Lle caiff y rhaglen ei gynnal?

Rhaid i ymgeiswyr fod yn gallu teithio i Dŷ Sant Patrick yng Nghaerdydd (cyferbyn â gorsaf drenau Caerdydd Canolog). Bydd Network Rail yn trefnu ac yn talu am unrhyw deithio ychwanegol i safleoedd gwahanol.

## Faint o'r gloch fydd angen ichi fod ar gael bob dydd?

Bydd pob dydd fel arfer yn rhedeg o 09:00 i 15:00. Mae disgwyl i'r ymgeiswyr fod ar gael ar gyfer y lleoliad gwaith cyfan.

## Beth fyddwch chi'n ei wneud ar y lleoliad gwaith?

Bydd cyfranogwyr yn cael profiad gwaith yn Network Rail a TrC yn ystod y lleoliad gwaith un-wythnos. Mae'r lleoliad yn cynnwys hyfforddiant ar dopigau fel cyflwyniad i'r rheilffordd, magu hyder, sgiliau cyfweliad ac ysgrifennu CV. Oherwydd ffactorau gweithredol, byddwn yn cadarnhau'r amserlen yn agosach at yr amser.

## Sut i wneud cais a'r dyddiad cau

Cliciwch yma i wneud cais neu sganiwch y cod QR isod.

## 21 Medi yw'r dyddiad cau ar gyfer ceisiadau.

Yn dibynnu ar nifer y ceisiadau, efallai y byddwn yn cau'r hysbyseb yn gynnar.

## I bwy mae'r lleoliad gwaith hwn?

Menywod a hoffai roi eu gyrfaoedd yn ôl ar ben ffordd ar ôl seibiant o'r gweithle. Mae croeso i bobl mewn gwaith wneud cais, ond rhaid iddynt fod yn gallu cwblhau'r rhaglen yn llawn. Rhaid i ymgeiswyr fod dros 18 oed.

## Sut olwg sydd ar y broses recriwtio?

Yn ystod y broses hon, byddwn yn eich gwahodd chi am sgwrs addasrwydd anffurfiol dros y ffôn, pan fyddwn ni'n trafod y cyfle ymhellach. Bydd hwn hefyd yn gyfle inni ddysgu mwy amdanoch chi, eich uchelgeisiau, eich dyheadau a'ch diddordeb yn y diwydiant rheilffordd.
Ar ôl y sgwrs, bydd y tîm yn cysylltu â chi ynglŷn â'r camau nesaf. Byddwn yn cysylltu â chi i gadarnhau a ydych wedi llwyddo i gael lleoliad gwaith, a byddwn yn rhoi adborth perthnasol ichi.

## Fyddwch chi'n talu fy nghostau teithio?

Dylai ymgeiswyr gynllunio i dalu am deithio i ac o Dŷ Sant Patrick yng Nghaerdydd bob dydd. Efallai y bydd Network Rail yn trefnu ac yn talu am unrhyw deithio ychwanegol i safleoedd eraill, yn dibynnu ar ofynion.

## Fydda i'n cael fy nhalu yn ystod y lleoliad gwaith hwn?

Mae hwn yn lleoliad di-dâl.

## Fydd hyn yn effeithio ar fy ngallu i hawlio budd-daliadau?

Gan nad ydym yn eich talu, nid ydym yn rhagweld y bydd y lleoliad gwaith yn cael unrhyw effaith. Ond eich cyfrifoldeb chi yw ceisio cyngor gan Swyddfa'r Adran Gwaith a Phensiynau.

## Fydda i'n cael cynnig swydd ar ddiwedd y lleoliad gwaith?

Er nad yw'r lleoliad gwaith hwn yn gwarantu y byddwch yn cael swydd gyda ni, byddwn yn rhoi gwybod ichi sut i wneud cais am swyddi gwag yn Network Rail / TrC ac yn eich helpu i gael y sgiliau i lwyddo yn y broses recriwtio.

## Polisi Cyffuriau ac Alcohol

Diogelwch yw ein prif flaenoriaeth yn Network Rail. Rydym yn gweithredu polisi dim goddefgarwch llym o ran cyffuriau ac alcohol ar gyfer yr holl unigolion sy'n gweithio ar neu o gwmpas y rheilffordd, gan gynnwys y rhai ar leoliadau gwaith. Mae hyn yn golygu:

Rhaid ichi beidio â mynychu eich lleoliad gwaith dan ddylanwad cyffuriau neu alcohol, neu gydag unrhyw sylweddau yn eich system a allai amharu ar eich crebwyll neu berfformiad.

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau amgylchedd diogel a chefnogol i bawb. Os oes gennych unrhyw bryderon neu gwestiynau am y polisi hwn, dylech siarad â'ch cydgysylltydd lleoliad gwaith.

## Ymddygiad disgwyliedig yn Network Rail

Hoffem i bawb deimlo'n ddiogel ac wedi'u parchu, a bod croeso iddynt. Yn ystod eich lleoliad gwaith gyda ni, rydym yn gofyn ichi:

- Fod yn barchus
- Trin pawb yn garedig a theg, waeth pwy ydyn nhw.
- Bod yn broffesiynol
- Siarad ac ymddwyn mewn ffordd sy'n briodol i'r gweithle.

## Pwy allaf i gysylltu â nhw i gael mwy o wybodaeth am y rhaglen?

Hayley Bird (Partner Busnes Adnoddu)
Hayley.Bird@networkrail.co.uk

## Mwy o wybodaeth am Network Rail:

- Network Rail – rydym yn rhedeg a gofalu am reilffordd Prydain, ac yn ei gwella
- Gyrfaoedd - Network Rail
- Bywyd yn Network Rail